O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 481(Cy.79)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 24, Coldra, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*21 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*1 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn(**2**).

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 24, Coldra, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.